# AMGUEDDFEYDD YN NEWID BYWYDAU



Museums Association

# CYFLAWNI CYFIAWNDER CYMDEITHASOL GYDA'N CYMUNEDAU



## Mae Amgueddfeydd yn ein gwneud yn iachach a hapusach ac yn cynyddu ein llesiant. Maent yn ein gwneud yn falch o'r ardal yr ydym yn byw ynddi, ac maent yn ein hysbrydoli, hysgogi a herio.

Ar adeg pan ydym yn wynebu mwyfwy o begynnu barn a materion heriol fel yr argyfwng hinsawdd a diffyg cyfartaledd cynyddol, gall amgueddfeydd chwarae rhan wrth gyflawni cyfiawnder cymdeithasol, gan ein dwyn ni a'n cymunedau at ei gilydd, chwalu rhwystrau yn weithredol a meithrin sgwrsio a myfyrio.

Mae amgueddfeydd ar draws y Deyrnas Unedig yn gwneud hyn trwy weithio gyda phartneriaid cymunedol, gwrando a gweithredu ar eu blaenoriaethau a gosod nodau cyffredin i gyflawni lleoedd mwy cynhwysol a theg. Golyga'r partneriaethau hyn bod amgueddfeydd o bob maint yn defnyddio eu gofod a'u casgliadau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl trwy gydweithio gyda grwpiau cymunedol, elusennau iechyd a sefydliadau trydydd sector eraill.

Ond, mae angen i ni hefyd sylweddoli y gall amgueddfeydd a'u casgliadau fod, weithiau, yn lleoedd sy'n allgau ac yn boenus. Gall ymwreiddio egwyddorion dadwladychu'r Gymdeithas Amgueddfeydd, bod yn weithredol wrth-wahaniaethu a gweithio gyda chymunedau ar gyrion cymdeithas i ddeall a goresgyn rhwystrau sy'n atal mynediad ac ymgysylltu helpu i agor ein hamgueddfeydd i bawb.

Mae'r Gymdeithas Amgueddfeydd (GA) yn rhoi cymorth i amgueddfeydd ddatblygu eu swyddogaeth fel sefydliadau cymdeithasol-amcanus trwy gyfarwyddyd, gwobrau, datblygu proffesiynol a chyllid. Gall gwaith cyfiawnder cymdeithasol helpu amgueddfeydd i ddod yn fwy cynaliadwy ac mae'n creu manteision cymunedol sy'n dadlau'n gryf dros bwysigrwydd buddsoddiad cyhoeddus yn ein hamgueddfeydd.

Boed yn gefnogi cyfiawnder hinsawdd trwy ddefnyddio dull cynaliadwy wrth ddylunio, adeiladu a chaffael yn Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban; dod â chymunedau at ei gilydd trwy Brosiect Cyfeillion Ffoaduriaid Amgueddfa Hastings, neu archwilio cysylltiadau hanesyddol â chaethwasiaeth yn amgueddfa Paxton House, mae amgueddfeydd a'u cymunedau ar draws y Deyrnas Unedig yn helpu i greu gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaol.



# Cyflwyniad y llywydd

## Sut oeddech chi'n teimlo y tro diwethaf i chi gerdded allan o amgueddfa? A wnaeth y profiad eich helpu i gysylltu, myfyrio a theimlo'n rhan o rywbeth mwy? Ac a wnaethoch chi adael yr amgueddfa gyda storïau, syniadau ac egni newydd?

Rydym oll yn gwybod am y grym sydd gan amgueddfeydd ym mywydau pobl. Maen nhw'n helpu pobl i deimlo eu bod yn perthyn i le penodol, yn cefnogi ein hiechyd a'n llesiant, ac i wneud synnwyr o fyd sy'n newid yn gyson ac yn ddryslyd yn aml.

Mae'r GA wedi ymrwymo i helpu pawb sy'n gweithio mewn amgueddfeydd a gyda nhw i ymateb i anghenion ein cymunedau, boed yn lleol, yn dod o bell – neu hyd yn oed yn rhithwir.

Beth bynnag yw maint yr amgueddfa neu natur ei chasgliadau, credwn yn gadarn y gall amgueddfeydd ddarparu catalydd nad oes ei debyg dros newid, caiff hynny ei helpu gan y ffaith mai amgueddfeydd yw rhai o'r sefydliadau sy'n cael eu trysori fwyaf mewn cymdeithas heddiw ag sydd a'r ymddiriedaeth fwyaf hefyd.

Gall amgueddfeydd fod yn rym dros y da wrth ymrafael â llawer o'r heriau mwyaf yn ein cyfnod, o unigrwydd ac anghyfartaledd yn ein cymunedau, i'r argyfwng hinsawdd ac amgylcheddol. Ond rhaid i ni gydnabod nad yw amgueddfeydd yn statig, ac y gallwn ni i gyd gymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod ein hamgueddfeydd mor gynhwysol a chroesawus ag sy'n bosibl i bawb, gan esblygu'n barhaus i fodloni anghenion ein hymwelwyr a'n defnyddwyr.

Mae ein Amgueddfeydd yn Newid Bywydau ar ei newydd wedd yn gobeithio rhoi cymorth i'r sector yn ei chenhadaeth barhaus ac rwy'n gobeithio y byddwch yn ei weld yn ysbrydoliaeth wrth gyflawni newid a chyfiawnder cymdeithasol ystyrlon.

**Steve Miller**
*Cyfarwyddwr diwylliant a threftadaeth yng Nghyngor Sir Norfolk, a llywydd, Cymdeithas yr Amgueddfeydd*



"Rydym yn gweld y cyfraniad anhygoel y mae amgueddfeydd yn ei wneud tuag at lunio cymunedau mwy cysylltiedig a chyfrifol yn gymdeithasol yn barhaus. Trwy weithio gyda'n cymunedau gan ddefnyddio ein casgliadau ac Amgueddfeydd yn Newid Bywydau fel man cychwyn gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ardaloedd lle'r ydym yn byw, gweithio ac yn ymweld â nhw."

**Rachael Rogers**
*Rheolwr amgueddfeydd a chelfyddydau yn Amgueddfeydd Treftadaeth MonLife, ac is-lywydd, Cymdeithas yr Amgueddfeydd*



# Gwella iechyd a llesiant

## Mae amgueddfeydd yn gwella ansawdd ein bywyd ac yn helpu i wella ein hiechyd meddyliol a chorfforol.

**Sut mae hyn yn edrych:**

**Tegwch mewn partneriaethau:** mae amgueddfeydd yn cydweithio â chymunedau a sefydliadau iechyd a lles i roi cymorth i lesiant amrywiaeth eang o bobl. Mae gwirfoddoli a chymryd rhan ystyrlon yn hybu lles a hunanhyder a gallant ehangu gorwelion y bobl sy'n cymryd rhan, yr amgueddfa a'r cyhoedd.

**Cyfranogiad dilys:** mae cymryd rhan yng ngwaith yr amgueddfa yn hyrwyddo llesiant a hunanhyder ac yn ehangu gwybodaeth a gorwelion y cyfranogwyr, yr amgueddfa a'r cyhoedd yn ehangach.

**Ymdrin ag anghyfartaledd:** mae amgueddfeydd yn cydnabod anghyfartaledd iechyd ac yn ymdrechu i'w oresgyn trwy weithio gyda sefydliadau iechyd arbenigol ac ystod eang o bobl a chymunedau.

**Llesiant i bawb:** mae amgueddfeydd yn cefnogi llesiant pawb sy'n gweithio ynddynt a gyda nhw gan gynnwys staff, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr.

**Lleihau niwed:** mae amgueddfeydd yn cydnabod nad ydyn nhw yn fannau diogel i bawb ac yn cymryd camau i leihau niwed mewn arddangosfeydd, rhaglenni a dehongliadau.

# Creu mannau gwell a thecach i fyw a gweithio

## Mae amgueddfeydd yn ein helpu i werthfawrogi'r lleoedd lle'r ydym yn byw, gweithio ac ymweld â nhw.

**Sut mae hyn yn edrych:**

**Cyfiawnder hinsawdd:** mae amgueddfeydd yn gweithio gyda chymunedau i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd ac i ddiogelu'r amgylchedd.

**Perthyn:** mae amgueddfeydd yn helpu i greu ymdeimlad o berthyn a grymuso trwy ymgysylltu â chymunedau ac annog cyfranogiad cyhoeddus gweithredol wrth lunio penderfyniadau.

**Cynhwysiant:** mae amgueddfeydd yn defnyddio ymgysylltu, dysgu a chasgliadau i greu dealltwriaeth o fewn a rhwng gwahanol grwpiau mewn cymdeithas ac yn gweithio i daclo hiliaeth, ableddiaeth a gwahaniaethu.

**Hygyrchedd:** mae amgueddfeydd yn gweithio mewn partneriaeth gyfartal â grwpiau cymunedol, elusennau a sefydliadau eraill i greu mannau cyhoeddus sydd ar agor ac yn hygyrch i bawb.



# Ysgogi ymgysylltu, trafodaeth a myfyrio

## Mae amgueddfeydd yn gweithio gyda'r cyhoedd fel cyfranogwyr gweithredol a chreadigol – gan ddefnyddio casgliadau fel man cychwyn ar gyfer cyfnewid barn, profiadau, syniadau a gwybodaeth.

**Sut mae hyn yn edrych:**

**Ystyried:** mae amgueddfeydd yn ein helpu i ddeall a chanfod ein ffordd trwy'r byd cymhleth o'n cwmpas, gan ein hannog i ystyried a gweithredu ar heriau cyfoes fel hiliaeth, gwahaniaethu, tlodi a'r argyfwng hinsawdd.

**Trafodaeth:** mae amgueddfeydd yn gweithio gyda phartneriaid cymunedol i ymchwilio i gasgliadau, herio tybiaethau, meithrin trafodaeth ac ysgogi pobl i gyfrannu at newid er gwell yn y byd. Nid ydynt yn lleoedd niwtral.

**Ysbrydoliaeth:** mae amgueddfeydd yn ysbrydoli dysgu a chreadigrwydd i bawb ac yn gweithio'n weithredol i sicrhau bod ystod eang o bobl yn gallu cael mynediad at y cyfleoedd yma ar unrhyw gyfnod yn eu bywyd.

# GWELLA IECHYD A LLESIANT



# Oriel Gelf Shipley, Recovery Through Ceramics

**Mae Recovery Through Ceramics yn gweithio gyda phobl sy'n ymadfer i ddatblygu sgiliau creadigol ac ymarferol newydd.**

Nid oedd llawer o'r cyfranogwyr wedi bod yn Shipley o'r blaen neu nid oeddent yn ymwelwyr cyson â chanolfannau diwylliannol. Ariennir y rhaglen trwy grant Trawsnewid Iechyd Meddwl y GIG ac mae'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â'r sefydliad ymadfer profiad byw, Recovery Connections a Chrochendy Bensham Grove.

Mae'r cyfranogwyr yn gweithio gyda seramegwyr i ddysgu gwahanol dechnegau a chreu eu darnau eu hunain, gan archwilio casgliad seramig Shipley i ysbrydoli eu gwaith eu hunain.

Trwy weithgareddau a ddyluniwyd i roi perchnogaeth iddynt dros eu rhaglen, fe wnaeth y cyfranogwyr gyd-guradu arddangosfa o'u gwaith am bythefnos yn y Shipley a chyd-guradu arddangosfa o waith o gasgliad seramig yr oriel yn ei chwpwrdd cymunedol newydd.

Dangosodd y gwerthusiad bod y rhaglen yn cynyddu hyder a lles gan hyrwyddo cefnogaeth a gwytnwch cymheiriaid. Mae'r cyfranogwyr hefyd yn datblygu sgiliau personol a phroffesiynol newydd trwy ymchwil ymarferol a gweithgareddau dehongli, a all helpu tuag at gyflogaeth yn y dyfodol. Mae rhai cyfranogwyr yn awr wedi dod yn wirfoddolwyr yn yr amgueddfa a mentoriaid profiad bywyd i gyfranogwyr yn y dyfodol yn y prosiect ac mae o leiaf un cyfranogwr wedi ymuno â chwrs crochenwaith yng Nghrochendy Bensham Grove.






## Adborth cyfranogwr

“Fe wnes i gael budd mawr o’r crochendy, yn dysgu am wahanol dechnegau wrth greu darnau o grochenwaith. Fe ges i lawr o heddwch a thawelwch wrth ei wneud, fe wnaeth adael i mi anghofio popeth a chanolbwyntio ar ddarn o grochenwaith hwyliog, sydd yn awr yn cael ei arddangos yn Oriel Gelf Shipley, sydd wedi rhoi y mdeimlad o falchder a chyflawniad.”

## Adborth partner cymunedol

“Rydym yn ddiolchgar iawn o gael y cyfle. Mae Oriel Gelf Shipley wedi bod yn rhodd wirioneddol i ni a’n haelodau cymunedol.”

Dot Smith, Prif Weithredwr Recovery Connections

# Oriel Gelf Ferens, Jason Wilsher-Mills: Are We There Yet?

**Roedd Are We There Yet? yn arddangosfa effeithiol gyda mynediad yn ganolog iddi, yn archwilio bywyd Jason Wilsher-Mills fel person anabl o'r dosbarth gweithiol, storïau pobl anabl a gofalwyr y mae wedi gweithio gyda nhw, a'i gysylltiad parhaus â Hull. Un darn allweddol yn yr arddangosfa oedd "The Changing Places Argonaut", gwaith celf anferth sy'n rhoi sylw i'r ymgyrch am doiledau hollol hygyrch.**

Bu'r oriel yn gweithio gydag artistiaid anabl a niwroamrywiol i ddarparu rhaglen gyhoeddus yr arddangosfa a datblygu dehongli a rhaglenni cynhwysol i ymgysylltu â chymunedau anabl, teuluoedd incwm isel a chynulleidfaoedd tu allan i'r celfyddydau.

Fe wnaeth sefydliadau cenedlaethol a lleol gan gynnwys Tourettes Hero a Sight Support helpu i ddatblygu'r dehongliad a darparu gweithgareddau ymgysylltu.

Comisiynodd a chafodd yr oriel waith newydd i'w chasgliad, a oedd wedi ei ysbrydoli gan gysylltiadau Jason â Dwyrain Swydd Efrog yn ei blentyndod a'r Ffigyrau Roos Carr cyn-hanesyddol sydd yn ei chasgliad. Daeth dros 50,000 o ymwelwyr i'r arddangosfa a chymerodd bron i 300 o bobl ran mewn gweithgareddau oedd yn targedu anghenion dysgu ychwanegol ac anabledd.

Mae'r prosiect wedi galluogi'r oriel i ddatblygu dulliau a phartneriaethau y bydd yn eu hymwreiddio mewn rhaglenni yn y dyfodol – gan gynnwys gweithredu dehongli hygyrch ar draws y gwasanaeth amgueddfeydd.





# Oriel Gelf Manceinion, Families of the World

**Mae Families of the World yn fenter gan yr oriel, gyda dull amlasiantaethol, i roi gweithgareddau creadigol i deuluoedd sy’n cyrraedd Manceinion o Afghanistan, Pacistan, Irac, Syria, Eritrea a Swdan.**

Mae’r teuluoedd sy’n aros mewn gwesty lleol, mamau a phlant ifanc yn neilltuol, yn cymryd rhan mewn sesiynau celf dan arweiniad artist yn yr oriel, gan orffen gyda phryd y maent yn ei rannu gyda’i gilydd.

Deilliodd y cynllun o argyfwng Afghanistan yn 2021, pan wnaeth yr oriel ymateb mewn 48 awr i gais gan y cyngor a’i ddarpariaeth Cychwyn Cadarn i gynnig gweithgaredd i deuluoedd oedd wedi cyrraedd y ddinas yn sydyn.

Ers hynny, mae’r angen wedi cynyddu, gyda theuluoedd yn ffoi o rannau eraill o’r byd lle mae gwrthdaro. Yn dilyn cyfnod treialu, mae’r oriel wedi cael cyllid gan yr Oglesby Trust i ddatblygu’r gweithgareddau gyda phartneriaid, denu lleoliadau celfyddydol eraill i fod yn rhan o’r cynllun a datblygu ap a phecyn offer.

Yn nodweddiadol mae’r sesiynau yn denu 35 i 45 o aelodau o deuluoedd, sy’n dweud bod yr ymweliad â’r oriel gelf yn eu helpu i deimlo’n hyderus ac addasu i ddinas newydd. Mae llawer o’r menywod sy’n rhan o’r cynllun hefyd wedi rhannu rysetiau ar gyfer prydau o Syria, prydau Cwrdaidd ac o Afghanistan, sydd yn awr yn cael eu gweini yn y caffi. Ac mae rhai aelodau yn gwirfoddoli i gefnogi rhaglen yr haf.




## Adborth cyfranogwr

“Mae dod i’r sesiwn yn gwneud i mi deimlo mor hapus a thawel. Mae mor braf cael dod allan o’r gwesty. ‘Does dim i’w wneud yno i mi a’m babi. Rydym yn eistedd mewn ystafell yn gwneud dim. Mae’n fy ngwneud i yn drist, ond pan fyddaf yn dod i Families of the World, rwy’n teimlo’n hapus.”

“Mae gwirfoddoli yn Oriel Gelf Manceinion wedi troi fy ofnau yn hyder. Rwyf wedi ffynnu mewn grŵp cefnogol, cyfeillgar, creadigol, trefnus ac anfeirniadol mewn amgylchedd artistig hardd.”

# CREU LLEOEDD GWELL



# Amgueddfa ac Oriel Gelf Hastings, Illuminating Invisible Histories: Flavours Without Borders

**Mewn partneriaeth â'r Prosiect Refugee Buddy, mae Amgueddfa ac Oriel Gelf Hastings yn gweithio ar brosiect tair blynedd, Illuminating Invisible Histories: Flavours Without Borders, i ddod â chymunedau at ei gilydd a chyd-greu rhaglenni ystyrlon sy'n adlewyrchu etifeddiaeth a hanes amrywiol Hastings.**

Bwriad y prosiect yw cynyddu ymwybyddiaeth o brofiadau ffoaduriaid yn Hastings, cynyddu cydweithio a chyd-gynhyrchu rhaglenni gyda sefydliadau cymunedol i ehangu'r hyn y mae'r amgueddfa yn ei gynnig a denu cynulleidfaoedd newydd.

Cynhaliwyd dwy wledd yn yr amgueddfa, lle'r oedd 20 o gyfranogwyr yn dod â bwyd cartref a gwrthrychau personol gyda nhw. Trwy fwyd a sgwrs wedi ei harwain, rhannodd cymuned ryng-genedlaethol ac aml-genedl storïau eu diwylliant, a'u bywyd yn Hastings. Cofnodwyd eu geiriau mewn ffilm a ddangoswyd yn ystod Wythnos Ffoaduriaid gyda gwrthrychau'r gwahoddedigion yn cael eu dangos ynghyd â thystiolaeth am eu teithiau trwy eu gwrthrychau.

Bydd y prosiect yn parhau i ddatblygu trwy gydol 2025 gyda dau leoliad 20 diwrnod gan aelodau o'r gymuned a fydd yn gweithio gyda staff yr amgueddfa ar ail-ddehongli arddangosfa barhaol yr oriel am fywyd yn Hastings.

Cyflwynir gwrthrychau newydd, a gall rhai ohonynt fod yn deillio o'r gwleddoedd, a bydd teithiau hefyd a thrafodaeth panel.

## Adborth cyfranogwr

"Emosiynol ac yn ysbrydoliaeth."

"Gwych, diddorol ac yn ysbrydoli."

"Dyrchafol, emosiynol ac yn ysbrydoliaeth."

"Ysbrydoliaeth, dwys, eglurhaol."






# Amgueddfa Perth, Unicorn

**Pan agorodd yr Amgueddfa newydd yn Perth yn 2024, dewisodd y tîm roi sylw canolog i storïau a lleisiau LHDTC+ lleol yn ei harddangosfa gyntaf, Unicorn. Fel rhan o archwiliad o anifail cenedlaethol yr Alban, mae'r arddangosfa'n canolbwyntio ar yr uncorn fel symbol LHDTC+.**

Gan weithio ar y cyd â grwpiau cymunedol, roedd yr arddangosfa yn cynnwys pump o weithiau celf oedd newydd eu comisiynu gan artistiaid cwiar o'r Alban, gwrthrychau lleol a hanesion llafar, lleoliad teuluol cyfeillgar i'r cwiar a rhaglen ymgysylltu gyfoethog.

Nid yn unig mae Unicorn wedi cynyddu cynrychiolaeth y cymunedau LHDTC+ yn arddangosfeydd yr amgueddfa ond hefyd yn ei chasgliadau trwy dderbyn gwrthrychau, gweithiau celf a hanesion llafar a grëwyd trwy'r arddangosfa.

Mae'r amgueddfa wedi ymwreiddio hyfforddiant newydd i staff er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn lle croesawus sy'n grymuso i weithwyr cwiar ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae Unicorn wedi bod yn llwyddiant masnachol ac o ran y beirniaid ac mae wedi creu lle diogel, perthnasol a dathliadol i bobl LHDTC+ yn Swydd Perth.

Denodd yr arddangosfa 10,000 o ymwelwyr a chodi £50,000 trwy werthiant tocynnau yn ei phedwar mis cyntaf, ac fe wnaeth hefyd fwynhau adolygiad pum seren gan bapur newydd y Guardian.

Trwy Unicorn, mae Amgueddfa Perth wedi herio'r dybiaeth mai dim ond mewn amgueddfeydd a dinasoedd mawr y gall gwaith cwmpasog, sy'n arwain y sector ddigwydd.



## Adborth Partner Cymunedol

"Roeddem wrth ein bodd o gael ein gwahodd i gymryd rhan yn y prosiect Unicorn yn Amgueddfa Perth. Roeddem wedi cyffroi yn lân o'i weld yn cael ei lansio fel rhan o agor yr amgueddfa newydd ym Mawrth 2024. Roedd yn gam arwyddocaol ymlaen mewn datblygu LHDTC+ yn Perth a Kinross, ac roedd yr arddangosfa yn drawiadol i'r llygad ac yn rymus. Rydym yn gwirioneddol werthfawrogi'r dull cydweithredol pan fyddwn yn gweithio gyda grwpiau a sefydliadau LHDTC+ ar draws y rhanbarth, ac ymhellach o gwmpas yr Alban, ac mae'r dull cydweithredol yma wedi arwain at ragor o gamau cadarnhaol i bawb oedd yn rhan ohono. Roeddem yn sicr yn teimlo bod Unicorn yn un o'r camau cadarnhaol hyn ac mae wedi helpu i hybu ymwybyddiaeth ac effaith materion LHDTC+. Mae digonedd o dystiolaeth bod ein helusen wedi cael ei chydnabod yn un ar gyfer adnoddau, cefnogaeth a chymuned o ganlyniad."

Matt Wester,
Aelod o'r Bwrdd ac Ymddiriedolwr Rainbow Heartlands LGBTQ+,
elusen LHDTC+ yn Perth a Kinross

# Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham, Panel Dinasyddion

**Yn Hydref 2024, cychwynnodd Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham (BMT) ei Phanel Dinasyddion – y gyntaf a'r gyfer amgueddfa yn y Deyrnas Unedig, ac un o'r rhai cyntaf yn fyd-eang. Fel rhan o strategaeth drawsnewid ehangach BMT, sy'n anelu at ailddyfeisio amgueddfeydd y ddinas yn lleoliadau gwirioneddol ddemocrataidd a chynhwysol, mae'r model Panel Dinasyddion wedi profi'n llwyddiannus wrth ymdrin â materion cymhleth a gyrru newid ystyrlon.**

Anfonwyd 5,000 o wahoddiadau allan ar draws Birmingham yn gofyn i bobl gymryd rhan ac yna dewiswyd y Panel i gyd-fynd â demograffeg allweddol y ddinas.

Clywodd y Panel gan sylwebwyr ar bynciau o'u dewis hwy, ar themâu yn amrywio o gyllid y sefydliad i'r sector diwylliannol ehangach, i helpu i ateb y cwestiynau canolog: 'beth sydd ar Birmingham ei angen a'i eisiau o'i hamgueddfeydd, yn awr ac yn y dyfodol' a 'beth ddylai Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham ei wneud er mwyn i'r pethau hyn ddigwydd?'

Eu hateb – ochr yn ochr â datganiad grymus am eu profiad, oedd yn sôn am falchder o'r newydd yn y ddinas – oedd 10 swyddogaeth i'r gwasanaeth amgueddfeydd ac 20 argymhelliad i weithredu oedd yn ymdrin â hyrwyddo amrywiaeth a chynrychioli bywydau bob dydd, yn ogystal ag ymdrin â phynciau sy'n rhannu pobl a chyfrannu at yr economi. Rhannodd y panel y rhain mewn digwyddiad i randdeiliaid yr oeddent wedi ei gynllunio eu hunain a thrwy adroddiad cyhoeddedig.

Ar ddechrau'r broses roedd tua 80% o aelodau'r panel yn teimlo nad oedd amgueddfeydd iddyn nhw, nad oeddent yn cynnig gwerth da am yr arian ac nad oeddent yn berthnasol. Erbyn diwedd y broses nid yn unig roedd aelodau'r panel wedi dod yn ymwelwyr â'r amgueddfeydd ond roeddent yn gofyn am ragor. Mae aelodau'r panel yn parhau i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth; yn eiriol ar ei rhan ac yn gofyn am gael siarad â chyllidwyr, gwleidyddion a'r wasg, i esbonio gwerth amgueddfeydd a'r angen am fuddsoddiad.



## Adborth y panel

"Nid oeddwn yn gwybod beth i'w ddisgwyl pan gefais y daflen... ond rwyf wedi dod yma ac mae wedi newid fy meddwl, roeddwn yn meddwl ei fod yn hen, diflas, ddim yn werth mynd, ond o'i gweld, mae wedi newid fy meddwl ac mae wedi gwneud i mi newid fy marn."

"Rwy'n wirioneddol obeithiol am ddyfodol Brum, rwy'n teimlo'n wirioneddol hapus bod hyn wedi digwydd. Mae gennyf gymaint o falchder yn Brum a thyfu mae hwnnw trwy'r broses hon. Rwy'n wirioneddol obeithio y bydd pobl eraill yn gallu gweld pa mor wych yw Brum oherwydd hyn."



# Amgueddfa Derry Rydd, Rhwydwaith Dehongli Gwrthdaro a Gwaddol

**Cychwynnwyd Rhwydwaith Dehongli Gwrthdaro a Gwaddol gan Amgueddfa Derry Rydd, Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon a Healing Through Remembering, gan greu rhwydwaith o amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth yn benodol i ymdrin â materion gwrthdaro a gwaddol yn ymwneud â'r gwrthdaro yn neu o gwmpas Iwerddon.**

Wrth i'r drafodaeth am waddol hanesyddol y gwrthdaro barhau, mae angen i amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth ystyried eu swyddogaeth a'u diben. Hyd yn hyn mae'r prosiect wedi dod ag 19 o sefydliadau gwahanol at ei gilydd o bob ochr i'r rhaniadau gwleidyddol a chreu lle i'r sefydliadau hyn, o gefndiroedd gwahanol iawn a hollol wrthwynebus i'w gilydd weithiau, ddefnyddio eu casgliadau a'u lleoliadau i weithio gyda chynulleidfaoedd ei gilydd i helpu i roi gwybodaeth ac addysgu am y drafodaeth am waddol.

Y canlyniad cyntaf pwysig oedd creu'r rhwydwaith ei hun, sydd wedi dwyn sefydliadau o bob maint a phob barn at ei gilydd. Ail ddeilliant oedd cyflogi aelod o staff a chreu presenoldeb digidol i'r rhwydwaith. Trwy'r wefan gall ymwelwyr ddysgu am aelodau'r rhwydwaith a gweld arddangosfa ddigidol o'u gwaith. Mae'r rhwydwaith hefyd yn gweithio tuag at arddangosfa ffisegol erbyn hyn.



## Adborth Partner Cymunedol

"Mae Decorum NI yn falch iawn o fod yn rhan o'r cynllun Rhwydwaith. Mae'n cynnig llwyfan niwtral ac anfeirniadol lle gellir gosod safbwyntiau a naratifau gwahanol am y Gwrthdaro ochr yn ochr a thrwy hynny helpu i greu gwell addysgu a dealltwriaeth - i genedlaethau'r dyfodol yn arbennig. Mae'n gyfle i'w groesawu'n fawr i ddweud ein stori mewn cyd-destun, rhywbeth nad ydym wedi gallu ei wneud yn unman arall."

Decorum

"O ystyried yr hanes a'r sefyllfa bresennol yng Ngogledd Iwerddon, mae sefydlu'r rhwydwaith yn ymdrin â'r her o sut yr ydym yn ymdrin â'r gorffennol llawn gwrthdaro yn y presennol dadleuol. Heb unrhyw gorff gwaddol swyddogol, gyda chydsyniad y wladwriaeth yn weithredol eto, mae'r rhwydwaith wedi cynnig rhwydwaith rhagorol o grwpiau, syniadau ac ymarfer sydd wedi cael dylanwad ar ein prosiect ni ein hunain, y Prisons Memory Archive. Rydym yn rhoi gwerth mawr ar fod yn rhan o'r rhwydwaith sy'n gynhwysol yn ei holl rannau, arferion a pholisïau."

Prisons Memory Archive



# Amgueddfeydd Monlife 2023–2025

**Roedd gwaith Amgueddfeydd Monlife o 2023 i 2025 yn blaenoriaethu gwrth-hiliaeth a chael grwpiau lleiafrifol i gymryd rhan ar draws tri safle'r amgueddfa.**

Fe wnaeth ein Prosiect a ariannwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, Casgliadau Deinamig: Agor y Blwch, ymgysylltu â mwy na 60 o bobl o gymunedau amrywiol yn Sir Fynwy gan gynnwys cymunedau amlddiwylliannol, y gymuned LHDTC+, pobl ag anableddau, cymunedau mudol a ffoaduriaid o Wcráin. Gwahoddodd yr amgueddfa hwy i rannu eu barn a'u storïau am Drefynwy ac i ddewis gwrthrychau o gasgliadau'r amgueddfa i'w harddangos. Fe wnaethant ysgrifennu storïau personol am eu rhesymau dros ddewis eu gwrthrychau a pha stori am Drefynwy y maent yn eu dweud wrthynt hwy. Arweiniodd hyn at ddwy arddangosfa: y ddwy dan y teitl 'Beth sy'n gwneud Trefynwy yn Drefynwy', un yn Amgueddfa Neuadd y Sir a'r ail oedd yn teithio o gwmpas lleoliadau lleol gwahanol. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys y ganolfan hamdden, llyfrgell, ysgolion a chanolfannau cymunedol ac aeth â'r amgueddfa allan i'r cyhoedd, gan ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Fe wnaethom redeg gweithgareddau a chreu adnoddau i ysgolion i fynd ochr yn ochr â'r arddangosfa yn y lleoliadau gwahanol. Fe wnaethom gynnwys pobl i gatalogio yn yr amgueddfa a rhedeg grwpiau ffocws gyda chymunedau amrywiol ar ba derminoleg a gwybodaeth y dylid ei chynnwys wrth gatalogio eitemau yn gysylltiedig â hanes LHDTC+, amlddiwylliannol ac anabledd. Erbyn hyn mae gennym ganllawiau iaith i staff a gwirfoddolwyr a ffurflenni i'n helpu i gasglu gwybodaeth hanfodol ychwanegol wrth dderbyn eitemau newydd gyda chysylltiadau â'r cymunedau hyn.

Galluogodd ail brosiect, wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i hybu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, i ni osod oriel newydd barhaol a dau flwch arddangos parhaol. Yn Amgueddfa Cas-gwent mae'r oriel newydd yn canolbwyntio ar hanesion mudo i Gas-gwent. Mae'n cynnwys fideo a wnaed gan y gymuned o Wcráin am eu bywyd yng Nghas-gwent. Yn Amgueddfa'r Fenni, fe wnaethom gomisiynu fideo gan yr Archifau Cenedlaethol yn Dominica am y Gymuned Rosalie, hen blanhigfa â chysylltiadau â'r Fenni. Fe wnaethom hefyd hwyluso sgyrsiau gyda grwpiau amlddiwylliannol lleol a arweiniodd at arddangosfa a dau flwch arddangos parhaol i gymunedau lleol i greu eu harddangosfeydd eu hunain. Hyfforddwyd staff Blaen Tŷ i gefnogi'r arddangosfeydd hyn ac fe wnaeth y gyntaf lansio gydag arddangosfa o eitemau o briodas amlddiwylliannol yn y Fenni.



# YSGOGI YMGYSYLLTU, TRAFODAETH A MYFYRIO



# Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl, Carving Out Truths: Sculpture and Slavery, Oriel Gelf Walker

**Prosiect wedi ei gyd-guradu oedd Carving Out Truths: Sculpture and Slavery yn gweithio gyda phobl ifanc o gymunedau Du a Mwyafrif Ethnig y Byd yn Lerpwl, sydd yn nodweddiadol heb gael eu cynrychioli'n ddigonol ac yn cael eu cam-gynrychioli mewn amgueddfeydd. Grymusodd y rhaglen hwy i ymchwilio a rhannu hanesion yn ymwneud â chaethwasiaeth, gwladychiaeth ac ymerodraeth yn gysylltiedig â chasgliad cerfluniau neo-glasurol Oriel Gelf Walker.**

Daeth cerfluniau neo-glasurol i'r amlwg yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif yn sgil yr Ymerodraeth Brydeinig oedd yn ehangu'n gyflym. Codwyd cofebion cyhoeddus yn darlunio 'arwyr' honedig Prydain o gwmpas y wlad, y talwyd amdanynt gan fasnachwyr lleol a wnaeth eu ffortiwn o fasnachu pobl o Affrica oedd yn gaethweision a'r nwyddau yr oeddent wedi eu cynhyrchu. Ymchwiliwyd i'r hanesion hyn ar y cyd trwy weithdai a sgyrsiau gan artistiaid, curaduron, addysgwyr, haneswyr ac ymgyrchwyr.

Trwy rannu gwybodaeth a phrofiad bywyd, cynhyrchodd y prosiect hwn gyfres o ymyraethau yn yr orielau yn tynnu sylw at unigolion a storïau oedd wedi eu hallgau o'r blaen, gan greu lle i ddysgu, deialog ac adfer. Roedd Carving Out Truths yn cynnwys 35 o gydweithwyr ac mae wedi cael ei gweld gan fwy na 60,000 o bobl, gan herio'r naratifau sefydledig mewn hanes celf sy'n parhau i gynnal y rhagfarn hiliol a gadwyd yn dawel yn sgil caethwasiaeth Prydain.



“Mae’r prosiect hwn wedi rhoi golwg flaengar ar sefyllfa menywod Du yn y gymdeithas heddiw. Mae fy ymyrraeth yn tynnu sylw at Phillis Wheatley, bardd Du Cristnogol oedd wedi cael ei herlid oherwydd ei rhyw a’i threftadaeth. Bron i 300 mlynedd yn ddiweddarach, mae gennyf i, bardd Du Cristnogol, y llwyfan i ddathlu ei bywyd a’i gwaith, ac i leisio’r hanesion yma sydd wedi eu tawelu trwy’r prosiect Carving Out Truths. Mae’r gwaith hwn yn datgelu dyfnder a chyfoeth hanes yr oedd yn anrhydedd i mi fod yn rhan ohono.”

Karen Maina,
aelod o grŵp cymunedol



# Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon, Global Voices Local Choices

**Deilliodd y rhaglen Global Voices Local Choices fel ymateb i alwadau cynyddol am i sefydliadau diwylliannol ymdrin â dadwladychu, sefyll yn erbyn hiliaeth a herio arferion sy'n allgau pobl. Ymunodd chwe amgueddfa ar draws Gogledd Iwerddon â phartneriaid cymunedol ac ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol tymor hir i fywydau pobl. Yn ystod y prosiect fe wnaethom rymuso cymunedau sydd ar yr ymylon o 40 o ddiwylliannau gwahanol i ymgysylltu â'r casgliadau Diwylliannau'r Byd a dylanwadu ar sut y maent yn cael eu rhannu a'u dehongli.**

Yn dilyn y rhaglen, mae'r amgueddfeydd wedi arwain cynlluniau cynhwysol newydd, ac mae rhannu storïau personol a gwrthrychau cysylltiedig wedi creu ymdeimlad cynyddol o berthyn mewn cymunedau. Er enghraifft, yn ddiweddar mae Llyfrgell Robinson Armagh, oedd yn bartner yn y rhaglen wreiddiol, newydd orffen ei drydydd prosiect gyda ffoaduriaid o Wcráin y gwnaethant eu cyfarfod ar ddechrau'r rhaglen.

Ac mae rhodd ddiweddar i Amgueddfa Ulster gan Diverse Youth NI, o waith celf yn darlunio Frederick Douglass, yn dangos hyder wrth rannu storïau perthnasol, gan sefydlu amgueddfeydd fel gofodau unigryw, cynhwysol a chroesawus.

Mae rhai cymunedau sydd ar y cyrion yn awr yn awyddus i gynnwys amgueddfeydd yn eu brwydr dros gyfiawnder cymdeithasol. Gwahoddodd y Sefydliad Cefnogi Affricanaidd Garibïaidd amgueddfeydd i gymryd rhan mewn cynadleddau am gydraddoldeb a gwrth-hiliaeth, gan ddangos bod amgueddfeydd wedi dod yn gydweithwyr perthnasol ac yr ymddiriedir ynddynt.

Mae'r partneriaid cymunedol a'r amgueddfeydd yn parhau i gyfarfod yn chwarterol fel rhwydwaith cefnogol i archwilio ffyrdd newydd o ymwreiddio arferion dadwladychu yn eu gwaith. Mae Supporting Decolonisation in Northern Ireland yn cynnig canllawiau gwerthfawr ac mae wedi ei rannu'n eang. Ar gyfer Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon, mae sefydlu swydd Curadur Cynorthwyol Hanesion Byd-eang Cynhwysol penodol yn atgyfnerthu eu hymrwymiad tymor hir i ddadwladychu.

Y prif wersi a ddysgwyd oedd bod yr ymgysylltu cymunedol trwy'r rhaglen wedi cynnig ffyrdd newydd i gasgliadau gael eu deall a'u dathlu. Sefydlwyd cysylltiadau a pherthnasau parhaol ac mae'r ymrwymiad i amrywiaeth mewn amgueddfeydd wedi ei atgyfnerthu.





# Amgueddfa Caersallog, Fashioning Our World

**Roedd Fashioning Our World yn gweithio gyda phobl ifanc (11-25 oed) i ddarganfod storïau cudd cynaliadwyedd y mae dillad ac ategolion o'r gorffennol yn eu cyfleu. Roedd y bobl ifanc yn archwilio eitemau o gasgliad ffasiwn Amgueddfa Caersallog ac yn dysgu sgiliau ymarferol i'w trwsio a chanfod defnydd newydd i eitemau yn eu cypyrddau dillad eu hunain.**

Rhannodd y bobl ifanc y storïau grymus yma gyda'r gymuned, gan anelu at newid agweddau pobl at ffasiwn a helpu i frwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd. Fe wnaethant drefnu digwyddiadau gan gynnwys sioe ffasiwn cynaliadwy, y gwnaethant eu gwisgoedd eu hunain ar ei chyfer trwy ganfod diben arall a defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu. Fe wnaethant hefyd gyd-guradu arddangosfa yn Amgueddfa Caersallog, gan ddenu 6,851 o ymwelwyr. Roedd yn adrodd storïau dillad ac ategolion sydd wedi cael diben newydd, eu trwsio a'u caru yn y gorffennol, ac yn gofyn: 'A all hyn ein hysbrydoli i feddwl yn wahanol am ffasiwn yn y dyfodol?'

Trwy'r prosiect crëwyd model y gall amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth eraill ei defnyddio gyda chasgliadau ffasiwn a gweithiodd mewn partneriaeth ag Amgueddfa Dorset i dreialu hyn. Hyfforddodd y cynllun 44 o wirfoddolwyr ac mae naw arall o Amgueddfa Caersallog, a phedwar o Amgueddfa Dorset wedi bod yn ymchwilio i'w casgliadau ffasiwn, helpu gyda digwyddiadau, gweithdai a'r arddangosfa, a throsglwyddo sgiliau i bobl ifanc.




## Adborth cyfranogwr

"Rwy'n hoffi popeth am y paneli, fe wnaethom ni i gyd weithio gyda'n gilydd i gynhyrchu pob agwedd ohonynt ac maen nhw wedi troi allan yn rhesymegol ac yn anarferol o apelgar. Mae'n braf gweld eich gwaith eich hun yn cael ei arddangos."

"Dweud y gwir, mae'n teimlo'n wych gweld fy syniadau yn cael eu defnyddio i addysgu pobl am hanes ffasiwn!"

"Sesiynau hwyliog a hamddenol, hyblyg a chefnogol i amrywiaeth o alluoedd. Cafodd y bobl ifanc hwyl a mwynhau creu. Roedd y gweithgareddau yn rhai i'w mwynhau ac roedd y bobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan heb ofni methu gwneud pethau."

Youth Action Wiltshire
(sy'n gweithio gyda phobl ifanc â chyfrifoldebau gofal)

# Amgueddfa Cymru Gwrth-hiliaeth

**Mae rhaglen Amgueddfeydd Gwrth-hiliaeth Cymdeithas yr Amgueddfeydd wedi bod yn un drawsnewidiol i Amgueddfa Cymru.**

Yng Nghymru rydym yn anhygoel o ffodus o fod yn gweithredu mewn cyd-destun gwleidyddol sy'n galluogi'r gwaith hwn, gyda deddfwriaeth flaengar fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliaeth yn paratoi'r ffordd i wneud Cymru yn wlad wrth-hiliaeth.

Yn 2020 mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, fe wnaethom gomisiynu set o adroddiadau Ehangu Ymgysylltiad. O'r rheini ar y cyd cynhyrchwyd cynllun gweithredu oedd yn amlinellu ein hymrwymiad i greu newid a gwneud yn well.

Felly, ers peth amser erbyn hyn, rydym wedi bod yn cymryd camau tuag at ddod yn sefydliad gwrth-hiliaeth. Mae hyn wedi cynnwys gwaith gyda'n cymunedau i ddadwladychu'r Casgliad Cenedlaethol, gan edrych ar ein dehongliad i greu naratif cytbwys, dilys ac wedi ei ddadwladychu a gweithio ar y cyd i ddatblygu a darparu rhaglenni sy'n fwy cynrychioliadol a chynhwysol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom lansio Safbwynt(iau) ar y cyd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, sefydliadau Celf a saith o weithwyr creadigol proffesiynol, i greu ymyraethau Gwrth-hiliaeth a dadwladychol ym mhob un o saith amgueddfa Amgueddfa Cymru ar draws Cymru ac mewn lleoliadau celfyddydol, gan ddwyn casgliadau a naratifau oedd yn gudd neu ar y cyrion yn y gorffennol i'r blaen trwy arddangosfeydd, gosodiadau, ffilmiau, digwyddiadau, symposia a dathliadau.

Er mwyn ymdrin ag elfennau sylfaenol problemau sefydliadol mae angen goruchwyliaeth strategol sydd wedi ei seilio ar ddysgu, a dad-ddysgu Gwrth-hiliaeth.

Dyna lle mae'r hyfforddiant Amgueddfeydd Gwrth-hiliaeth yn dod i mewn, gyda phum aelod o'n tîm arwain yn ymuno â'r cohort.

Fe wnaeth greu lle i fyfyrio a thrafod, ein herio, dysgu sgiliau meta newydd i ni a'n hailgysylltu â'n hemosiynau fel arweinwyr - gan ein helpu i ddeall eu pwysigrwydd yn y gwaith hwn. Mae gennym yn awr fan cychwyn newydd ar gyfer y gwaith hwn, gan herio'r gwynder sydd wedi ymwreiddio. Rydym yn defnyddio ein sgiliau meta i amharu ac rydym yn ail-ddychmygu sut y gall grym gael ei rannu, gyda rhaglenni fel Safbwynt(iau) yn ein galluogi i droi'r hyn a ddysgwyd yn weithredu.

Un deilliant allweddol i ni oedd dysgu ochr yn ochr ac oddi wrth brofiad amgueddfeydd eraill. Yn naturiol mae hyn wedi creu clymblaid o amgueddfeydd sydd wedi ymrwymo, nid yn unig i'w teithiau Gwrth-hiliaeth eu hunain, ond hefyd at adeiladu sector gwirioneddol Wrth-hiliol gyda'i gilydd.

# EIN HADNODDAU AR GYFER YMARFER SY'N GYMDEITHASOL YMGYSYLLTIEDIG

- Cronfa Cymunedau a Chasgliadau Esmée Fairbairn
- Cronfa Iechyd a Llesiant mewn Amgueddfeydd
- Measuring Socially Engaged Practice – A Toolkit for Museums
- Gwobrau Amgueddfeydd yn Newid Bywydau
- Cyrsiau ar-lein a chefnogaeth gyrfaoedd
- Power to the People – A Framework for Participatory Practice
- Supporting Decolonisation in Museum
- Hwb Llesiant
- Working Equitably – A Toolkit for Museums and Community Organisations

# AMGUEDDFEYDD YN NEWID BYWYDAU

**Delweddau gan**
Families of the World, Oriel Gelf Manceinion; Carving Out Truths, Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl; Are We There Yet? Oriel Gelf Ferens; Recovery Through Ceramics, Oriel Gelf Shipley; Muslims in the North; The Last Gallop - Llun Bart Masiukiewicz; Amgueddfa ac Oriel Gelf Hastings; Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd Birmingham; Conflict and Legacy Rhwydwaith Dehongli, Amgueddfa Derry Rydd; Amgueddfeydd Monlife; Global Voices Local Choices Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon; Fashioning Our World, Amgueddfa Caersallog.

Museums Association

**Museums Association**
42 Clerkenwell Close,
London EC1R 0AZ
T: 020 7566 7800

#MuseumsChangeLives

www.museumsassociation.org/museums-change-lives